Pryfed Peillio Cymru
Pollinators in Wales

**Cynllun Gweithredu ar gyfer Peillwyr**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2016 yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Y Drenewydd

Yn bresennol:

| | | |
|---|---|---|
| Ann Jones | - | NFWI-Cymru |
| Bleddyn Lake (ar y ffôn) | - | FoE Cymru |
| Bob Griffiths | - | OPAL |
| Clare Dinham | - | Buglife |
| Dave Heath | - | LlC |
| James Byrne | - | Ymddiriedolaethau Natur Cymru |
| Jan Miller | - | Bionet |
| Jane Jones | - | LlC |
| Jenny Shaw | - | WBKA |
| Julian Rees | - | Pollen8cymru |
| Leasa Fielding | - | LlC |
| Marc Carlton | - | Y Fforwm Garddio Er Lles Bywyd Gwyllt |
| Natasha De-Vere | - | Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru |
| Nigel Leaworthy | - | Cyngor Sir Fynwy |
| Pete Frost | - | CNC |
| Simon Bilsborough | - | LlC |
| Steven Rose | - | BIBBA |

1. **Cyflwyniad – Gwaith peillwyr yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru**. **N DeVere.**

Teimlai aelodau'r GG y byddai canlyniadau'r ymchwil yn darparu tystiolaeth dda i roi blaenoriaeth i rywogaethau ar restr peillwyr Cymru.

**Cam Gweithredu**

- NDV i roi rhagor o wybodaeth/canlyniadau'r gwaith a amlinellwyd yn y cyflwyniad i'r tasglu cyn gynted ag y maent ar gael.
- LlC i ddosbarthu copïau electronig o'r cyflwyniad i aelodau'r GG.

2. **Cyflwyniad – Buglife yng Nghymru**

**Cam Gweithredu**

- CD i roi rhagor o wybodaeth i aelodau'r tasglu am B-lines yng Nghymru wrth i'r prosiect ddatblygu
- LlC i dynnu sylw tîm LlC sy'n arwain ar y Cynllun Rheoli Cynaliadwy y dylai unrhyw geisiadau SMS llwyddiannus mewn perthynas â pheillwyr yn ne Cymru gysylltu â'r prosiect B-Line.
- LlC i ddosbarthu copïau electronig o'r cyflwyniad i aelodau'r GG.

## 3. Cyflwyniad – Polisi cyfeillgar i beillwyr yng Nghyngor Sir Fynwy

Teimlai aelodau'r GG y byddai cyflwyniad ar ddatblygu polisi peillwyr CS Fynwy yn astudiaeth achos ddefnyddiol mewn seminar yn y dyfodol ar reoli tir stad gyhoeddus.

**Cam Gweithredu**

- NL a LlC i ystyried y ffyrdd gorau o ddosbarthu polisi Sir Fynwy i Awdurdodau Lleol eraill.
- LlC i ddosbarthu copïau electronig o'r cyflwyniad i aelodau'r GG.

## 4. Datblygu pecyn adnoddau addysgol - diwallu anghenion y cwricwlwm cenedlaethol

Darparwyd esiamplau o becynnau adnoddau addysgol mewn perthynas ag Ewro 2016 - gweler http://hwb.wales.gov.uk/ a phrosiectau cymeradwy Bagloriaeth Cymru http://www.wjec.co.uk/qualifications/welsh-baccalaureate/welsh-bacc-from-2015/ks4-national-foundation/. Gofynnwyd i aelodau'r GG ystyried datblygu pecynnau adnoddau peillwyr a phrosiectau peillwyr y gellid eu cyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth o dan elfen Dinasyddiaeth Fyd-eang neu Gymunedol Bagloriaeth Cymru (gall hyn fod ar ffurf yr Elfen Gyfeillgar i Wenyn). Atgoffwyd aelodau'r GG bod ffocws ar ddatblygu sgiliau angenrheidiol y cymhwyster yn bwysig wrth ddatblygu prosiect ar gyfer Bagloriaeth Cymru, yn hytrach na ffocws penodol ar ddysgu a phrosiect penodol (ee: peillwyr).

**Cam Gweithredu**

- Grŵp gorchwyl a gorffen bychan i ddatblygu pecyn adnoddau addysgol a phrosiectau peillwyr ar gyfer Bagloriaeth Cymru. Mynegodd JM, JR ac AJ ddymuniad i fod yn rhan o weithgor e-bost ar gyfer hyn.

## 5. Elfen Cymru Cyfeillgar i Wenyn

Cyflwynodd BL ac SB ddiweddariad ar gynnydd y gwaith o ddatblygu'r Fenter Tasglu yma. Cytunwyd mai nod yr elfen oedd gweithredu fel adnodd ymgysylltu i gyrraedd pobl a chymunedau nad ydynt yn ymwneud â gwaith i gefnogi peillwyr fel rheol. Cyfarfu grŵp gorchwyl a gorffen ym mis Ebrill i drafod y dogfennau oedd wedi'u datblygu erbyn hynny. Wedi trafod mawr, cytunodd y Grŵp mai 'Cymru Cyfeillgar i Wenyn' oedd yn cael ei ffafrio (am sawl rheswm) yn hytrach na 'Caru Peillwyr'. Ar ôl trafod pellach am gyfieithu, teitl diweddaraf yr ymgyrch arfaethedig yw 'Caru Gwenyn / Bee Friendly'. Derbyniwyd hyn gan aelodau'r tasglu gyda'r amod bod unrhyw luniau'n gorfod cynnwys amrywiaeth o fathau o beillwyr i gadarnhau'r neges nad dim ond gwenyn yw peillwyr. Mae SB wedi ymchwilio i'r posibilrwydd o wefan unigol ar gyfer dogfennau Caru Gwenyn / Bee Friendly. Os yw'r Safon i gael ei lansio ym mis Medi (yng nghynhadledd bioamrywiaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (PBC)), ni fydd yn bosib cael gwefan unigol, ond gellid gosod y dogfennau ar wefan PBC am

y tro. Cytunodd aelodau'r GG y byddai cynllunio safon "efydd, arian ac aur" yn ormod o dasg yn y tymor byr ac roedd angen treialu Safon hunanardystio 'sylfaenol' cyn ehangu i fodel cymhlethach. Gallai digwyddiad dysgu ar y cyd y flwyddyn nesaf helpu fel sail i ddatblygu cynllun haenau yn y dyfodol.
Cytunodd aelodau'r GG hefyd y byddai'r Safon yn hybu rhestr plannu i beillwyr Cymru a ddatblygwyd gan MC a JM.
Pwyntiau i'w nodi ar gyfer y cynllun haenau yn y dyfodol - dylai aelodau'r panel fod yn hyrwyddwyr cyfeillgar i wenyn lleol sydd wedi derbyn rhywfaint o hyfforddiant i safoni'r dull o weithredu, ac sydd â chefndir garddwriaethol.
Dylid datblygu cyflwyniad cyffredinol hefyd gydag aelodau'r GG, i'w gyflwyno i grwpiau lleol i helpu i godi proffil y Safon.

<u>Amserlen ar gyfer datblygu'r Safon</u>

Erbyn diwedd mis Mehefin – adborth ar y dogfennau a dderbyniwyd

Canol mis Gorffennaf – pob addasiad wedi'i orffen a'r testun terfynol wedi'i gytuno

Diwedd mis Gorffennaf / dechrau mis Awst – cyfieithu

Canol / diwedd mis Awst – tudalennau'r we a deunyddiau eraill yn orffenedig

Mis Medi – lansio yng nghynhadledd PBC

**<u>Cam Gweithredu</u>**
Holl aelodau'r GG i ddarparu'r canlynol:

- adborth i BL ac SB ar y dogfennau Caru Gwenyn erbyn diwedd mis Mehefin
- astudiaethau achos enghreifftiol o brosiectau peillwyr
- lluniau da o beillwyr i'w defnyddio mewn dogfennau ac ar dudalennau gwe
- cwestiynau cyffredin ac ymatebion a awgrymir

Holl aelodau TG i wneud y canlynol;

- meddwl am grwpiau lleol y gellid eu hannog i gofrestru ar gyfer y Safon

- MC i ychwanegu aildrefnu rhestr plannu i beillwyr Cymru erbyn y tymor

**6. Rheolaeth gyfeillgar i wenyn ar gyfer y stad gyhoeddus (papur CNC ar gyfer ei ystyried)**

Awgrymiadau gan aelodau'r GG y gallai PF gyflwyno'r papur yn y seminarau tir stad gyhoeddus yn nes ymlaen eleni. Gallai'r papur gynnwys manyleb enghreifftiol ar gyfer contractwyr, i hybu'r cysyniad y dylai contractau allanol gynnwys yr egwyddorion allweddol yn y cyfarwyddyd, er mwyn rheoli tir stad gyhoeddus yn briodol.

**<u>Cam Gweithredu</u>**

- PF i gynnwys lluniau ychwanegol e.e.: sied gyda tho gwyrdd / ffensys yn cael eu defnyddio fel trelis i dynnu sylw at seilwaith gwyrdd.
- PF i ddad-CNC contract tir Maesyffynnon ar gyfer ei gynnwys yn y cyfarwyddyd
- JB i edrych ar y cyfle i'r cyfarwyddyd gael ei hybu gan Gomisiynydd WBFG

- PF i ystyried cyfle i ddarparu cyfarwyddyd tebyg ar gyfer tir preifat ee: archfarchnadoedd

**7. Papurau i'w nodi**

Diweddariad ar ddiwygio CAP a'i wneud yn fwy gwyrdd - diweddariad (papur)

Iechyd gwenyn – diweddariad (papur)

Monitro peillwyr ar lefel y DU – diweddariad (papur)

**Cam Gweithredu**

- Aelodau GG i e-bostio sylwadau at JB ar ddiwygio CAP. Mae'n drafftio papur ar gyfer ei gyflwyno i'r UE ar ran YNC WTUK

**8. Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf**

Cafwyd diweddariad byr gan BG ar lansio pecynnau arolygu Polli:Nation OPAL a'u hargaeledd yn Eisteddfod yr Urdd y Fflint a'r niferoedd wnaeth eu cymryd. Hefyd rhannodd BG becynnau arolygu Polli:Nation a'r cardiau Helfa Rhywogaethau i aelodau'r GG.

Diolchodd SB i BL ac MC am eu gwaith caled ar yr Elfen Caru Gwenyn / Bee Friendly a rhestr planhigion i beillwyr Cymru.

Cafwyd diweddariad byr gan PF ar reoli ffyrdd yn LlCWE - mae CNC wedi dechrau torri coed ymylon ffyrdd yn ôl gryn bellter, er mwyn atal difrod i arwynebau ffyrdd. Mae hyn wedi arwain at fanteision buddiol o ran cynyddu llwyni ar hyd ymylon ffyrdd, sydd wedi bod yn llesol i bryfed.

Mae CNC yn bwriadu cynnal ymgyrch Caru Peillwyr ddiwedd yr haf. PF i anfon manylion at SB i'w dosbarthu.

Y Plas Pili Pala - mae'r tŷ pili pala trofannol yn agor yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ar 25 Gorffennaf.

Lansiodd Cyswllt Amgylchedd Cymru ei ymgyrch Hyrwyddwyr Rhywogaethau ar 15 Mehefin yn Nhŷ Hywel yng Nghaerdydd.

Mae Cynhadledd nesaf y Fforwm Garddio Er Lles Bywyd Gwyllt, sef "Addysgu cenhedlaeth o arddwyr bywyd gwyllt", yn digwydd ddydd Mercher 29 Mehefin yn Crewe. Llefydd ar gael. Ewch i www.wlgf.org i gofrestru.

**Y cyfarfod nesaf**

- Y Drenewydd ddiwedd mis Tachwedd neu ddechrau mis Rhagfyr;
- Gofyn i Russel Hobson fod yn gadeirydd
- Y grŵp Gorchwyl a Gorffen i gyfarfod cyn mis Tachwedd i gynllunio seminarau Rheoli tir stad gyhoeddus